Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Panel Craffu

## Ymarfer Hap Samplo

# Adolygiad o Achosion o Fyrgleriaeth (Medi 2017 – Mai 2018)

# Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys

## Adborth a Chanfyddiadau Aelodau Panel

Gorffennaf 2018

## Cynnwys

1.0 Trosolwg .......... **Error! Bookmark not defined.**
2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg .......... **Error! Bookmark not defined.**
2.1 Data cefndir .......... **Error! Bookmark not defined.**
3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel .... **Error! Bookmark not defined.**
4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel blaenorol .......... 5
5.1 Arsylwadau .......... 5
6.0 Ystyriaeth o achosion o fyrgleriaeth – drwgdybiedigion sy'n oedolion .......... 6
6.1 Arsylwadau .......... 7
7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn .......... 10
7.1 Arfer da .......... 14
7.2 Meysydd ar gyfer gwella .......... 14
8.0 Ffocws y Panel ar gyfer y dyfodol .......... 14
9.0 Materion eraill .......... 14

## 1.0 Trosolwg

Yng nghyfarfod Panel Craffu Dyfed-Powys ar Waredlaidau y Tu Allan I'r Llys a gynhallwyd ar 16 Gorffennaf 2018, adolygodd Aelodau ddetholiad o achosion o fyrgleriaeth yr ymdriniwyd â nhw drwy waredlad y tu allan i'r llys.

Ystyriodd y Panel gyfanswm o 15 achos. Roedd tri yn ymwneud â drwgdybiedigion a oedd yn bobl ifainc, ac roedd deuddeg yn ymwneud â drwgdybiedigion a oedd yn oedolion.

## 2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg

Mae aelodau'n cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Maen nhw'n derbyn ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod, sydd wedi'u dewis ar hap gan y Cadeirydd Panel. Yna, mae'r Panel yn cwrdd i drafod pob achos a, lle bo'n bosibl, yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwarediad. **Wrth benderfynu pa gategori y mae'r achos yn syrthio iddo, dylai'r panel ystyried y meini prawf canlynol:**


- Barnau ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr;
- Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- Y rheswm ar gyfer y penderfyniad a'r canlyniad;
- Yr effaith bosibl ar y gymuned;
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a'r
- Dewisiadau amgen posibl a allai fod ar gael


Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:


- Defnydd priodol sy'n gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon Aelodau'r Panel;
- Defnydd amhriodol neu'n anghyson â'r polisi; a
- Y Panel yn methu â dod i gasgliad.

### 2.1 Data cefndir

Mae'r graffiau canlynol yn dangos y newid yn nefnydd Heddlu Dyfed-Powys o fathau gwahanol o waredíadau y tu allan i'r llys dros amser.






## 3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel

Yr wyf i Mr N. E. Powell JP (rhowch eich enw mewn llythrennau bras) yn medru cadarnhau fy mod i wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'r farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplo ar 16 Gorffennaf 2018 yn llawn.

Llofnod: [signature]

Dyddiad: 18/10/18

## 4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel blaenorol

O ganlyniad i waith y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cymeryd ers y cyfarfod diwethaf:

- Yn y cyfarfod diwethaf, canfuwyd bod gwallau cofnodi mewn 4 o'r achosion, gan gynnwys troseddau ychwanegol oedd wedi cael eu gadael allan. Mae'r rhain wedi cael eu diwygio ers hynny, a'u diweddaru ar y system.

## 5.0 Ystyriaeth o achosion o fyrgleriaeth - drwgdybiedigion ifainc

Ymdriniwyd ag un o'r achosion ieuenctid a ystyriwyd drwy Ddatrysiad Cymunedol Ieuenctid, un achos drwy Waredlad Adferol Ieuenctid, ac roedd gan un achos ddau o ddrwgdybiedigion, gydag un yn cael Rhybudd Amodol Ieuenctid ac un yn cael Rhybudd Ieuenctid. Roedd asesiadau Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 0 |
| Priodol gydag amheuon | 2 |
| Amhriodol | 1 |

### 5.1 Arsylwadau

Nodir arsylwadau'r Aelodau Panel ar bob achos isod.

**Achos 1**

Roedd Aelodau'n teimlo fod canlyniad Gwarediad Adferol Ieuenctid yr achos hwn yn anghyson â'r polisi, ac y dylai'r drwgdybiedig fod wedi cael rhybudd gan i'r drwgdybiedig gael ei ddarganfod gyda llafn, a'i fod wedi derbyn Gwarediad Adferol Ieuenctid yn y gorffennol. Roedd y Panel yn teimlo nad oedd yr achos wedi cael ei anfon at y lefel briodol, ac nad oedd digon o reswm dros wyro oddi wrth y polisi.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 2**

Roedd yr achos hwn yn cynnwys dau ddrwgdybiedigion. Roedd y Panel yn teimlo bod canlyniad yr achos hwn yn briodol, ond yn teimlo fodd bynnag, nad oedd digon o ffocws ar farn y dioddefwr. Nodwyd bod Swyddog Cyswllt Dioddefwyr wedi gweithio'n agos gyda'r dioddefwr; fodd bynnag, ni chofnodwyd hyn ar y System Rheoli Troseddau ac felly, ni chafodd ei ystyried yn llawn o fewn y broses gwneud penderfyniadau.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 3**

Roedd Aelodau'n teimlo y dylai canlyniad yr achos hwn fod wedi bod yn Rybudd Amodol Ieuenctid o bosibl, yn hytrach na Datrysiad Cymunedol Ieuenctid, oherwydd sgôr difrifoldeb y drosedd.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 4**

Cyn y cyfarfod, canfuwyd bod y Gwarediad Adferol Ieuenctid anghywir wedi cael ei gysylltu â'r trosedd hwn, ac mai canlyniad cywir yr achos oedd nad oedd unigolyn a ddrwgdybiwyd wedi'i ddarganfod. Mae'r gwall hwn wedi'i ddiwygio ar y System Rheoli Troseddau, ac felly, nid oedd y Panel yn gallu adolygu'r achos.

## 6.0 Ystyriaeth o achosion o fyrgleriaeth – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd Aelodau'r Panel 11 achos oedolyn. Cafodd 2 ohonynt eu trin drwy Rybudd, 3 drwy Rybudd Amodol a 6 drwy Ddatrysiad Cymunedol Oedolion. Roedd asesiadau Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 9 |
| Priodol gydag amheuon | 0 |
| Amhriodol | 1 |
| Panel Wedi Methu â Dod i Gasgliad | 1 |

### 6.1 Arsylwadau

Nodir arsylwadau'r Aelodau Panel ar bob achos isod.

**Achos 5**

Ni fynegodd Aelodau unrhyw bryderon o ran y rhesymau yn y ffeil achos a'r penderfyniad canlyniad dilynol. Roedd y troseddwr wedi ysgrifennu ymddiheuriad ac wedi talu iawndal fel rhan o ddatrysiad cymunedol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 6**

Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r rhesymau yn y ffeil achos, ac yn teimlo bod rhybudd amodol yn benderfyniad canlyniad priodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 7**

Roedd y Panel yn teimlo fod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol. Er bod y troseddwr wedi derbyn Rhybudd Amodol yn unol â dymuniadau'r dioddefwr, roedd y Panel yn teimlo, oherwydd gwerth y lladrad, y tor-ffydd a swm y dystiolaeth, bod yr unigolyn hwn mewn perygl o aildroseddu ac felly, y dylai fod wedi cael ei gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron i benderfynu a ddylid dwyn cyhuddiad yn ei erbyn neu beidio.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 8**

Daeth Aelodau'r Panel at y penderfyniad bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol. Roedd y drwgdybiedig wedi derbyn Datrysiad Cymunedol Oedolion yn unol â chanllawiau a pholisi.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 9**

Roedd y Panel yn fodlon gyda chanlyniad y gwarediad hwn. Roedd y drwgdybiedig wedi cyfaddef y drosedd ac wedi talu iawndal fel rhan o ddatrysiad cymunedol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 10**

Daeth Aelodau'r Panel i'r penderfyniad bod yr achos hwn wedi cael ei waredu'n briodol, gan nad oedd gan y drwgdybiedig unrhyw euogfarnau blaenorol a'i fod yn lladrad lefel isel.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 11**

Roedd y Panel yn hapus gyda'r ffaith mai Datrysiad Cymunedol Oedolion oedd canlyniad y gwarediad hwn. Nid oedd gan y troseddwr unrhyw euogfarnau blaenorol, roedd wedi talu iawndal, ac wedi ysgrifennu ymddiheuriad.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 12**

Roedd Aelodau'n fodlon â chanlyniad yr achos hwn; cyfaddefodd y troseddwr y drosedd ar ôl i dystiolaeth fforensig gael ei gyflwyno iddynt, ac nid oedd ganddo unrhyw euogfarnau blaenorol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 13**

Ni fynegodd y Panel unrhyw bryder ynghylch canlyniad y gwarediad hwn. Roedd y drwgdybiedig wedi cyfaddef i'r drosedd ac wedi talu iawndal fel amod o'r rhybudd amodol.

**Asesiad y Panel: Priodol.**

**Achos 14**

Nid oedd y Panel yn gallu dod i benderfyniad ynghylch canlyniad yr achos hwn. Canfuwyd bod trosedd sy'n gysylltiedig â'r achos yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, lle cafodd 23g o sylwedd anhysbys ei ddarganfod yng nghyfeiriad y digwyddiad. Ar hyn o bryd, nid oedd y sylwedd anhysbys wedi cael ei enwi, ac roedd y Panel yn teimlo nad oeddent yn gallu rhoi sylwadau ar briodoldeb y gwarediad hyd nes y penderfynwyd ar ganlyniad y drosedd sy'n gysylltiedig â'r achos. Trafodwyd hefyd, bod cyfeiriad y digwyddiad, sef adeilad diffaith, yn denu llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol dro ar ôl tro.

**Asesiad y Panel: Methu â dod i gasgliad**

| **Cam gweithredu 1** |
| --- |
| Achos 14: I gael ei drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol, ar ôl dod i benderfyniad ynghylch canlyniad y drosedd sy'n gysylltiedig â'r achos. |

| **Cam gweithredu 2** |
| --- |
| Achos 14: Prif Arolygydd Lleol i roi gwybod am bryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr adeilad diffaith i Swyddogion Heddlu yn yr ardal honno, i sicrhau bod Swyddogion Heddlu'n mynd ar batrôl o gwmpas yr ardal hon yn rheolaidd. |


**Achos 15**

Roedd y Panel yn fodlon gyda'r drwgdybiedig yn derbyn Datrysiad Cymunedol Oedolion, gan ei fod yn unol â pholisi ac arweiniad.


**Asesiad y Panel: Priodol**

## 7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

Mae'r graff isod yn dangos asesiad y Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.





Ers mis Ebrill 2013, mae'r Panel wedi ystyried amrediad o warediadau, fel y dangosir yn y graff isod.





O'r 233 achos a gafodd eu harchwilio rhwng Ebrill 2013 a Gorffennaf 2018, aseswyd bod 55% ohonynt yn briodol, 25% yn amhriodol, a 18% yn briodol gydag amheuon. Methodd y panel â dod i gasgliad mewn 2% o achosion.


Ar y cyfan, bu cynnydd yn nifer yr achosion y mae'r Panel wedi'u hystyried sydd â gwarediadau priodol. Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod.


Asesiad y panel dros amser ar gyfer troseddau o Ebr 2013 - Gor 2018
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
Ebrill 2013 - Gorffennaf 2018
Priodol
Priodol gydag amheuon
Amhriodol
Y Panel yn methu i ddod i gasgliad

Mae'r graff isod yn dangos crynodeb yn ôl y math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Gorffennaf 2018.




Mae'r graff canlynol yn dangos gwir nifer yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd, a barn ganlyniadol y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 a Gorffennaf 2018.



### 7.1 Arfer da

Mae'r enghraifft ganlynol o arfer da wedi'i nodi o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- Mewn naw allan o'r un ar ddeg o'r achosion o fyrgleriaeth gan oedolion a gafodd eu hap samplo, roedd y Panel yn fodlon â'r rhesymau a nodwyd yn y ffeiliau achos, a arweiniodd at y canlyniad gwaredu priodol.

### 7.2 Meysydd ar gyfer gwella

Nodwyd un maes penodol sydd angen ei wella o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- Darganfuwyd, mewn tri o'r ffeiliau achos a gafodd eu hap samplo, nad oedd y canlyniad wedi cael ei anfon at y lefel briodol, naill ai mewn perthynas â throseddau blaenorol yr unigolion, neu oherwydd sgôr difrifoldeb a difrifoldeb yr achos.

## 8.0 Ffocws y Panel ar gyfer y Dyfodol

Cafwyd trafodaeth ynghylch pa bwnc y dylai'r Panel ei ystyried nesaf. Ystyriwyd bod troseddau rhywiol a throseddau cyllyll yn opsiynau posibl. Fel Panel, cytunodd yr Aelodau i ystyried gwarediadau y tu allan i'r llys yn ymwneud â digwyddiadau troseddau cyllyll yn y cyfarfod nesaf, oherwydd y cynnydd yn y duedd genedlaethol a lleol.

## 9.0 Materion eraill

Codwyd ymholiad gan Weithdy y tu allan i'r llys sy'n digwydd bob mis yn Llundain i gynorthwyo heddluoedd sy'n dymuno symud i 'r ymagwedd dwy haen at ddatrysiadau y tu allan i'r llys. Gofynnodd y gweithdy i heddluoedd godi'r isod gyda'u paneli craffu:

*A ddylai datrysiadau cymunedol gael eu codi yn y llys fel rhan o hanes troseddu unigolion?*

Cafwyd trafodaeth, a chyrhaeddwyd consensws cyffredinol, sef na ddylid ystyried datrysiadau cymunedol fel rhan o hanes troseddu unigolyn yn y llys. Mynegodd y Panel eu bod nhw'n dymuno cael gwybod am unrhyw gynnydd cenedlaethol ar y mater.

**Cam gweithredu 3**

Aelodau'r Panel i gael eu briffio ar y system gwaredu dwy haen y tu allan i'r llys wrth i ddatblygiadau godi.

Roedd y Panel yn teimlo nad yw pobl ifanc yn ymwybodol o'r goblygiadau y gallai gwarediad y tu allan i'r llys ei gael ar eu dyfodol, a bod angen addysgu pobl ifanc i ddeall eu dewisiadau a'u hawliau sy'n ymwneud â rhybuddion.

**Cam 4**

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i godi pryderon y Panel gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ynghylch codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc mewn perthynas â'u hawliau wrth dderbyn gwarediadau y tu allan i'r llys.

Codwyd ymholiad ynghylch gwybodaeth swyddogion yr heddlu ac aelodau staff o'r panel craffu gwarediadau y tu allan i'r llys. Dywedodd yr OPCC eu bod nhw'n gweithio gyda chynrychiolwyr yr Heddlu i godi ymwybyddiaeth y Panel ac i rannu eu canfyddiadau. Cytunwyd hefyd, y byddai adroddiadau'r Panel yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y Panel a gwella'r mecanweithiau dysgu ac adborth i'r Heddlu a phartneriaid, ac i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw adborth.